

PERTHYN

Awst 2020

289



Duw yn llond pob lle ... a Zoom!

Gair gan y Gweinidog



Llun: Amelia Davies

Mae hi'n wythnos olaf mis Gorffennaf ac felly'r weithred arferol o grynhoi meddyliau ar gyfer Perthyn.

Fel arfer fe fyddwn yn cyfeirio at weithgaredd a phrysurdeb yr Ysgol Sul tros y flwyddyn, ynghyd ag anogaeth i ymlacio a mwynhau gwyliau'r haf, ond mae pethau ychydig yn wahanol y flwyddyn yma. Fe welwyd newid mawr ym mywyd y byd ac effaith hynny ar ein bywydau personol, teuluol, cymunedol ac eglwysig. Mae hi wedi bod yn fisoedd o addasu a cheisio creu rhyw fath o normalrwydd newydd, ac mae hynny'n parhau.

Mewn un ystyr fe dawelodd y byd, a ninnau o ganlyniad yn gweld bywyd o'r newydd ac effaith hyn i gyd ar galon a meddwl. I mi'n bersonol roedd treulio mwy o amser gyda theulu yn fendith fawr a hynny heb y rhedeg arferol o un lle i'r lall ac roedd mynd i gerdded ar hyd llwybrau dieithr Penrhyn-coch heb sŵn ceir, yn gyfle i fyfyrrio ac ymlacio.

Er y bendithion, mi roedd yna bethau anodd hefyd a dim yn fwy na'r orfodaeth i ymbellhau. Yn ystod wythnos cyntaf mis Awst fe fyddwn yn troi trwyn y car i'r de ac yn creu 'swigen' gyda aelwyd arall sef fy nhad a mam-yng-nghyfraith, dau nad ydym wedi eu gweld ers mis Chwefror a bydd y profiad o'u gweld yn brofiad cyffredin i gymaint yn ystod yr wythnosau nesaf.

Un peth yw galwad ffôn neu sgwrs 'Zoom' a 'Facetime' a neges ebost, peth hollol wahanol yw cymdeithas wyneb yn wyneb. Ac felly hefyd yng nghyd destun ein bywydau eglwysig. Fe fu'r misoedd diwethaf yn fisoedd o arbrofi a dysgu byw fel eglwys mewn ffyrdd gwahanol ac i raddau bu'r cyfan yn llwyddiant. Bu'r myfyrdodau ar Facebook a'r oedfaon ar 'Zoom' yn gyfrwng bendith ac yn gyfle rhithiol i weld ein

gilydd ac addoli gyda'n gilydd. Y cyfarfodydd wythnosol yn gyfle i wahodd siaradwyr o bell a hynny heb iddynt adael eu cartrefi, y cyfarfodydd blaenoriaid a phwyllgorau misol yn sicrhau ein gwaith gweinyddol ac fe barhaodd y gwaith bugeiliol trwy ebyst a *Perthyn* a chymwynasau amrywiol.

Hoffwn ddiolch i gymaint ohonoch am sicrhau y wedd yma i'n bywyd fel eglwys a'ch gofal tros y rhai oedd yn gaeth i'w cartrefi ac i'r plant, pobl ifanc ac athrawon yr Ysgol Sul am eu ffyddlondeb diwyd tros y flwyddyn, ond yn arbennig yn ystod y misoedd diwethaf. Cafwyd dosbarthiadau wythnosol ar 'Zoom' a braint oedd cael ymuno gyda'r Dosbarth Ieuenedid yr wythnos o'r blaen a phrofi eu brwydfrydedd a gonestrwydd.

Mae pethau'n dechrau newid ac ymhlith y newidiadau hynny yr hawl i ail ymgynnull mewn lle o addoliad. Bellach mae Pwyllgor Gwaith y Gymanfa Gyffredinol wedi rhyddhau dogfen gynhwysfawr fydd yn arweiniad i ni fel eglwys a byddwn yn gweithredu ar y cynnwys tros yr wythnosau nesaf.

Mae'n amlwg bod rhai yn gweld y weithred fel dim byd mwy na ail agor drysau, heb sylweddoli'r cyfrifoldeb o sicrhau amgylchedd diogel a'r cyfyngiadau cyfreithiol fydd yn llywio unrhyw weithred o ymgynnull ac addoli. Fe fydd hi'n gyfnod heriol wrth i ni bontio'n gwaith rhithiol gyda phatrwm arferol ein bywyd fel eglwys ac yn arbennig felly wrth sylweddoli bod y cyfnod diweddar wedi bod yn gyfrwng i daflyd ein rhwydau'n ehangach yn ein perthynas â phobl ac felly fe fydd y disgwyliadau'n fwy yng nghyd destun yr Eglwys ond yn arbennig felly'r Efengyl. Un peth sy'n sicr, bod yr hwn sy'n galon y cyfan wedi ac yn aros yr un a'r ddealltwriaeth o fywyd newydd yng Nghrist, yn sail i unrhyw fywyd ac unrhyw ddyfodol.

Gyda'r ddealltwriaeth ogoneddus yna, gadewch i ni ddiolch am gyfleon newydd, ail gydied yng nghyrn yr aradr a dilyn yr Iesu. Byddwch ddoeth, cadwch y rheol dwy fedr, gwisgwch eich mygydau a'ch menig, crewch eich bybl a mwynhewch yr Haf!

Eifion.

Newyddion Awst

Cofion a dymuniadau gorau

Anfonwn ein cofion at ein haelodau a'n cyfeillion yng Nghapel y Morfa ac Ebeneser gan obeithio eich bod i gyd yn cadw'n iach ac yn ddiogel. Anfonwn ein cofion at y rhai a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar ac at ein haelodau a'n cyfeillion sydd yn ynysu a'r rhai sydd yn derbyn gofal yn eu cartrefi neu mewn cartrefi gofal.

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i:

Gareth a Nonna Owen sydd wedi dathlu eu priodas aur ar ddydd Sul, Awst 2il

Cydymdeimlad

Trist yw cofnodi marwolaeth Mrs. Nancy Lovatt ar ddiwrnod ei phenblwydd yn 101. Cydymdeimlwn â Catherine, Michael ac Alan a'u teuluoedd. Cynhaliwyd yr angladd preifat yn yr Amlogfa o dan arweiniad ein Gweinidog.

Cydymdeimlwn yn ddwys â:

Morfudd Strange ar farwolaeth ei phriod, Mr. William Strange (Bill), hefyd â'i merch Mona a'r teulu. Roedd yr angladd yn yr Amlogfa o dan ofal Y Parch Eifion Roberts.

hefyd â Hugh ac Ann Hughes a'r teulu ar farwolaeth chwaer Ann, sef Mrs. Sybil Evans, Llanelli. Roedd hi'n chwaer i Ron Lewis a chydymdeimlwn hefyd â Ron a Sylvia a'r teulu.

Llongyfarchiadau i Deian Creunant, Elin Haf Gruffydd Jones ac Angharad Fychan ar gael eu anrhydeddu i'r Orsedd. Byddant yn cael eu hurddo yn Eisteddfod Ceredigion y flwyddyn nesaf yn Nhregaron. Y maent ymhlith nifer eraill o'r sir sydd wedi derbyn anrhydedd am eu cyfraniad i'n diwylliant.

Dwy gyfrol newydd

Llongyfarchiadau i Eurig Salisbury am gyhoeddi'r gyfrol newydd o'i gerddi, sef *Llyfr Gwyrdd Ystwyth*.

Llongyfarchiadau i Eryn White ar gyhoeddi ei chyfrol newydd a ffrwyth ei hymchwil sef *The Welsh Methodist Society : the early societies in south-west Wales 1737 -1750 (Gwasg Prifysgol Cymru)*


Diolch 'r rhai a fu'n paratoi'r arlwy o wasanaethau a rhaglenni crefyddol ar y Sul yn ystod y misoedd diwethaf ar gyfer y teledu, radio a'r cyfryngau cymdeithasol.

Diolch i Eifion am y gwasanaethau a'r myfyrdodau ar Zoom, Facebook a Youtube ac i Rhidian a John hefyd am y myfyrdodau. Mae'r cyfan wedi bod yn fendithiol iawn mewn cyfnod anodd.

Diolch i Eurig Salisbury a Hywel Griffiths am y gwasanaeth arbennig ar y radio ar fore Sul, Awst yr 2il. Clywyd lleisiau Rhiannon Salisbury ac Alaw Griffiths yn cyflwyno'r darlenniadau.

Mae lleisiau Sara Down-Roberts a Gwen Down hefyd i'w clywed yn aml yn cyflwyno'r darlenniadau yn y gwasanaethau ar fore Sul. Diolch i bob un.

Yn briodol iawn mae'r rhaglen *Bwrw Golwg* wedi symud i'r cyfnod ganol dydd yn dilyn y gwasanaeth. Diolch i John Roberts a Chwmni Tonau am y ddarpariaeth ardderchog.



Deffrown, Dad, ar doriad dydd – ein gweddi

A rown ni o'r newydd,

A daw'n ffaith dros dai ein ffydd

Wawr lawn o fawr lawenydd.

Eurig Salisbury

O wasanaeth yr Eisteddfod Amgen – fore Sul 2 Awst
oedd dan arweiniad Eurig a Hywel Griffiths.

Capel Ebeneser

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at ein haelodau a'n cyfeillion yn Ebeneser.

Dymunwn yn dda i Catrin a David Lewis a'u plant, Maccsen a Magi sydd wedi symud i'w cartref newydd yn Noddfa, Penparcau.

Cydymdeimlwn â Ron a Sylvia Lewis a'r teulu ar farwolaeth chwaer Ron, sef Mrs Sybil Evans, Llanelli.

Cyfraniadau

Diolch yn fawr i'r rhai ohonoch sy'n cyfrannu'n rheolaidd drwy'r banc at gronfa Capel y Morfa, ac i'r rhai sydd wedi anfon cyfraniadau drwy'r post yn ystod y misoedd anodd hyn. Rydym yn gweld eisiau casgliadau'r Sul, ond cofiwch fod modd i chi anfon cyfraniad ataf i drwy'r post (Coed y Berllan, Ffordd Bryn-y-môr, Aberystwyth SY23 2HX), neu fe allaf drefnu i gasglu cyfraniad gennyh - gallwch gysylltu â fi ar 610160.

Diolch
Rhidian

Ysgol Sul a Gweithgareddau Plant a Ieuenctid

Mae Meithrin y Morfa yn parhau trwy gyfnod y gwyliau. Mae Catherine yn cyflwyno stori a gweithgaredd crefft ar Facebook am 9.30 bob bore Sul. Mae'r plant yn mwynhau ac yn awyddus i ddangos eu gwaith.

Mae'r pecynnau sydd yn cynnig gweithgareddau amrywiol ar gyfer pob oed wedi cyrraedd yn wythnosol ers dechrau'r cyfnod clo ac yn parhau i gyrraedd. Diolch yn fawr i'r grŵp yn y Gogledd sydd yn eu paratoi.

Mae'r ieuenctid wedi mwynhau cyfarfod bob dydd Sul ar Zoom, ac am wneud hynny eto ym mis Medi wedi gwyliau'r haf.

Trefnwyd Joio@zoom ar gyfer plant 6-11 oed yn ystod y gwyliau a chynigiwyd amrywiaeth o weithgareddau yn ystod yr awr - stori, helpa drysor, cwis, gemau a chrefft.

Diolch i bawb a fu'n gysylltiedig a'r gwaith gyda'r plant a'r ieuenctid ac am y gefnogaeth a dderbyniwyd. Trefnwyd cyfarfod athrawon ar Zoom er mwyn trafod y posibilïadau ar gyfer y tymor newydd ym Medi.

Dymunwn wyliau hapus i bawb.

Cylch Gweddi a Choffi

Bore Mawrth am 11 o'r gloch ar Zoom

Bu'r cyfarfodydd Gweddi a Choffi yn cyfarfod am 11 o'r gloch bob bore Mawrth gan orffen y tymor ddiwedd Gorffennaf.

Un bore Mawrth ym mis Gorffennaf gwahoddwyd y Parch Marcus Robinson, Llywydd presennol Cymanfa Gyffredinol yr Eglwys Bresbyteraidd, i ymuno â ni. Yn ei ffordd hwyliog a chartrefol adroddodd rhai hanesion difyr am deithio'r byd fel caplan yn y llynges. Wedi iddo ddarllen yr hanes am Iesu'n tawelu'r storm, ei neges i ni wrth wynebu cyfnod anodd y pandemig oedd i ymlacio, ymlonyddu ac ymddiried yn Nuw er mwyn cael teimlo tawelwch ysbryd a thangnefedd.

Yn y cyfarfod olaf aethom ar daith rithiol trwy gyfrwng fideo i Jeriwsalem yng nghwmni tywysydd sydd yn cynnig teithiau rhithiol i ddinasoedd a gwledydd diddorol heb orfod teithio ar awyren nac ymadael â'n cartrefi.

Astudiaethau Ffydd a Phaned

Prynhawn Gwener am 2 o'r gloch ar Zoom

Yn dilyn y Pentecost thema astudiaethau'r tymor oedd Yr Ysbryd Glân a'r Eglwys yn y Testament Newydd a heddiw. Wrth ystyried yr eglwys heddiw ac her y dyddiau hyn, trafodwyd y cwestiynau *Beth mae'r cyfnod hwn yn ei ddysgu i ni?* a *Sut allwn ni ymateb i her ein cyfnod?* Cawsom gyfle i ymateb i gerdd Casia Wiliam *Duw ar Zoom* ac i'r llun *Eglwys heb Furiau*.

Fel arfer yr ydym yn gorffen y tymor gyda trip. Eleni cawsom ddau, y cyntaf yng nghwmni ein tywyswyr Nia a Meurig Royles i ardal Treffynnon. Roedd y mapiau a'r lluniau ar y sgrin yn dod â'r ardal yn

fyw i ni. (Diolch i Lleucu am baratoi'r rhaglen Powerpoint i Taid a Mamgu). I barhau â'r bererindod aeth Eifion â ni i Benrhyn Llyn, i Aberdaron ac Ynys Enlli.

Diolch i Eifion am drefnu a pharatoi'n fanwl ar ein cyfer yn wythnosol.

Duw ar Zoom

Rhywsut aeth Duw yn ddiarth.
Rhwyng y naw tan bump a plant i'w gwlaú
a gwaith yn galw
doedd dim lle iddo yn sêd fawr fy mywyd.

Bob hyn a hyn doi yn ôl yn annisgwyl
wrth i mi lenwi troli, neu lyncu'r Ê ffôr sefnti
ond wastad â chymun o euogrwydd
am beidio twyllu ei dŷ cyhyd.

Ond rŵan, a ninnau yng nghanol
y tywyllwch tywyllaf,
dyma fo, ar fy nglîn,
lond y sgrîn,
lond y gegin.
Duw ar Zoom.

A ffasiwn sinig, mi daerwn y byddwn
wedi mynd am y groes yn syth,
ond na, arhosais ennyd
i glywed adnod,
i geisio ei lais eto,
i weld os medrwn estyn croeso iddo
yn fy nhŷ fy hun.

Ac yn lle'r festri oer a chwech yn gwmni
dyma lond y we o gwmpeini;
a dros goffi,
mewn pajamas,

yn ein gwllâu ella,
daeth y ne' atom ni.

O dro i dro,
rwan ei bod hi'n dechra g'leuo,
wrth i mi osod bwrdd neu
hel llestri brecwast,
mewn eiliad o heddwch,
mi gai ryw air bach efo fo
a mae o'i weld ddigon bodlon
i ni gwrdd fel hyn,
yn bytiog rhwng prydau,
a minnau heb ddim byd am fy nhraed.

- CASIA WILIAM

Symud sêl – eto!

(Ymddangododd yn wreiddiol yn y Goleuad.)

Beth amser yn ôl fe ysgrifennais ddarn am antur a gefais wrth deithio rhyw fore Sul o fy sêl arferol yn y capel draw i'r 'ochr arall', a'r pethau rhyfedd ac ofnadwy a welais yno.

Ond pwy feddyliai yr adeg hymny y byddai'r olygfa wedi newid cymaint mewn cyn lleied o amser?

Bellach rydyn ni'n dechrau dod i arfer â gwasanaethau Zoom.

Rydym yn wynebu'n gilydd yn ein gogoniant. Erbyn hyn nid braint y sawl sy'n annerch y gynulleidfa'n unig yw gweld wyneb pawb. Nid syllu ar war y naill a'r llall ydyn ni, ond gwenu'n llydan ar ein gilydd a chodi llaw.

Roedd ein harbrawf cyntaf ni gyda thechnoleg Zoom ar Sul y Pentecost a phan holwyd ni i gyd-ddarllen Salm, a neb wedi mudo'i feicroffon, roedd hi'n llanast a phawb yn siarad ar draws ei gilydd. Gwnaed y sylw craff ein bod ni'n siŵr o fod wedi profi peth o ysbryd y Pentecost gwreiddiol.

Ac o feddwl am y peth efallai bod yna goesau i'r sylw hwnnw. Oes mae acw anhrefn. Ond mae o'n anrhefn braf am nad oes yna drefn i'w dilyn. Rydyn ni'n llythrennol yn torri tir newydd.

Mae ffurf y gwasanaeth wedi bod yn wahanol bob tro. Yn sicr mae hi wedi bod yn fyrrach. Ac i aralleirio jôc rhywun arall, ma hi'n braf gallu taro 'mute', 'pause' a 'fast forward' ambell dro.

Mae pobl yn cerdded i mewn ac allan, yn cyrraedd yn hwyr a gadael yn gynnar. Yn aml iawn y bobl sydd ddim yn gwybod lle mae'r botwm 'mute' yw'r rhai sy fwyaf o'i angen o. Ond mae honno'n ddameg arall.

Ond mae'r eglwys yma yn ein cartrefi ni, yn ei ystafelloedd byw ni neu'n ystafelloedd gwely ni. A thra'n bod ni'n wynebu'n gilydd yn ein

gogoniant gwalltog a blêr, rydyn ni'n mynd a'n llyfrau a'n lluniau, ein llwch a'n llanast efo ni i'r capel.

Ond fel rydyn ni'n gwisgo dillad parch, gallwn hefyd ddewis be sy o flaen y camera. Efallai fod y plant yn rhedeg yn noeth y tu hwnt iddo fo, neu efallai bod y wraig yn gwranddo yn ei chyrllys. Un bore Sul cefais gwmmi'r Rev James, nid golygydd y *Goleuad*, ond triawd o boteli cwrw gwag ers y noson gynt, ond doedd y gynulleidfa ddim callach.

Mae'n cynulleidfa oedd ni wedi cynnwys teulu a chyfeillion o'r tu hwnt i Aberystwyth, o Loegr ac un ymwelydd rheolaidd o Siapan. Does dim ffiniau. Mae'r bobl mwyaf annisgwyl wedi cymryd at y dechnoleg a thra bod rhai heb droi i mewn, mae rhai eraill oedd byth yn tywyllu capel wedi ymuno.

Bellach rydyn ni'n dechrau caniatáu i ni ein hunain feddwl am fynd yn ôl. Fe fydd hynny'n ryddhad i lawer.

Ond i lawer mae'r cyfle i feddwl y tu allan i'r bocs wedi bod yn rhyddhad hefyd. Gobeithio na fydd popeth yn mynd yn ôl i mewn i'r bocs hwnnw, ac y bydd rhywfaint o anrhefn braf yr eglwys fore yn aros ar y gwynt.

RAJ

Fi a Joe Allen



Na, nid Manon Steffan yn unig all ddweud hynny bellach – ond ein Steffan Rhys Jones ni! Er i gystadleuaeth farddoniaeth Ewro 2020, Llenyddiaeth Cymru, gael ei gohirio fel y bencampwriaeth ei hun, fe anfonodd athrawes Steffan gerdd yr oedd o wedi ei hysgrifennu, at Llenyddiaeth Cymru beth bynnag. A dyna syrpreis gafodd Steffan tua diwedd mis Mehefin clywed nid yn unig fod Gruffudd Eifion Owen, Bardd Plant Cymru, yn darllen ei gerdd ar Facebook, ond fod Joe Allen ei hun wedi recordio neges i ddiolch i Steffan am ei gerdd.

Os ydych chi'n darllen hwn ar eich cyfrifiadur – gallwch ddilyn y ddolen hon at y fideo.

<https://www.facebook.com/FAWales/videos/359725274991144/>



Llenyddiaeth Cymru greodd y poster yma o'r gerdd.

Da iawn Steff!



Mynyddfaeth
Cymru
Literature
Wales

EWRO 2021

Dinasoedd yn dawel,
Anthemau yn fud,
Y Wal Coch yn ddistaw,
Dim swm ar y stryd.

Y byd yn dioddef,
Ynysu sydd rhaid,
Rhaid ymladd y feirws,
Cyn cyd-gerdded i'r cae.

Bydd y ddraig goch yn rho -
Dewch 'mlaen Gymru fach.
Bydd y byd wedi gwella,
Bydd Joe Allen yn iach!

Yfory daw gobaith,
Yfory daw gwên,
Dathlwn gyda'n gilydd,
Ewro 2021!

Steffan Rhys Jones, Blwyddyn 6, Ysgol Gynradd Llanilar

Perthyn digidol

Mae'r rhifyn hwn eto yn cael ei baratoi ar ffurf ddigidol oherwydd y cyfyngiadau a osodir arnom yn sgil y Coronafeirws ond fe wnawn yn siŵr fod copi caled yn cael ei bostio i bob aelod sydd heb gysylltiad â'r rhyngwyd. Am resymau ymarferol mae'r cynnwys yn fyrrach nag arfer. Rydym yn gwneud ein gorau i gadw mewn cysylltiad cyson â'n holl aelodau a'n cyfeillion drwy e-bost a ffôn. Yn y cyfamser cadwch yn ddiogel a chofiwch gysylltu ag Eifion neu'r blaenoriaid a'r ymwelwyr ardal os bydd angen unrhyw beth arnoch.

Dyma restr ddethol o wasanaethau sydd ar gael ar wahanol gyfryngau ynghyd â rhai ffynonellau eraill a allai fod o ddiddordeb ichi:

- Myfyrdod ar gyfer Capel y Morfa bob bore Sul am 10.00 o'r gloch ar Facebook - Capel y Morfa Aberystwyth
- Mae'r Cyngor Ysgolion Sul wedi paratoi cyfeirlyfr o adnoddau i eglwysi i'w helpu i ddarparu ar gyfer eu haelodau. Gweler <https://www.ysgolsul.com/?pageid=6474>
- Ysgol Sul - gwersi Meithrin y Morfa dan ofal Catherine
- Mae gwasanaethau a myfyrdodau ar gael ar wefan Eglwys Bresbyteraidd Cymru dan y pennawd 'Hafan' - <https://www.ebcpcw.cymru/cy/>
- Cofiwch fod S4C yn darlledu oedfa'r bore ar y teledu, bob bore Sul am 11.00 o'r gloch.
- Mae 'Dechrau Canu Dechrau Canmol' ar y teledu cyn hynny am 10.30 o'r gloch.
- Mae *Y Goleuad* yn cael ei gyhoeddi ar y we yn unig dros gyfnod yr argyfwng. Bydd yn ymddangos ar ddydd Mawrth ac ni fydd yn cael ei argraffu a'i ddanfôn drwy'r post. Gweler <https://www.ebcpcw.cymru/cy/>
- Mae Oedfa'r Bore yn cael ei ddarlledu am 12.00 o'r gloch ar Radio Cymru ar foreau Sul
- Mae Bwrw Golwg ar Radio Cymru dan arweiniad John Roberts yn dilyn am 12.30 o'r gloch (amser newydd) ar foreau Sul


Gweddi

Ein Stiwardiaeth o Fyd Duw

Arglwydd yr holl ddaear, yr hwn a greaist bob peth yn deg ac yn brydferth: y blodau, y glaswellt a'r coed, aruthredd y mynyddoedd ac ehangder y moroedd a'r awyr, creaduriaid ac adar, a phob peth byw: gwna ni'n gyfrifol yn ein stiwardiaeth o'th fyd, gan barchu popeth hardd ac ymdrechu i gadw ein hamgylchfyd heb ei amharu. A dyro i bawb sydd mewn awdurdod ddoethineb i atal y rhai a gais, yn ddifeddwl neu o drachwant, hagru neu ddifetha gwaith dy ddwylo; gofynnwn hyn er mwyn cenedlaethau'r dyfodol ac er gogoniant i'th enw. Amen

Bob Bore o Newydd, BBC, 1938, allan o Amser i Dduw, Gol. Elfed ap Nefydd Roberts

RHAGHYSBYSIAD ¶	
<u>Cynhelir cyfarfodydd Cymdeithas y Morfa ar Zoom y tymor nesaf. Bydd y rhaglen llawn yn Perthyn Mis Medi. Yn y cyfamser dyma'r dyddiadau ar gyfer eich dyddiaduron..... ¶</u>	
2020.....	2021 ¶
Medi 28.....	Ionawr 11 ¶
Hydref 12.....	Chwefror 1 ¶
Hydref 26.....	Chwefror 22 ¶
Tachwedd 9.....	Mawrth 8..... ¶
Tachwedd 23.....	Mawrth 29..... ¶
Rhagfyr 7.....	¶



Golygyddion y mis hwn yw Sharon Owen a Rocet Arwel Jones. Fe fydd yna rifyn byr o Perthyn yn cael ei gynhyrchu ar gyfer mis Medi. Os gallwch yrru unrhyw gyfraniadau at Sharon (sharonowen527@btinternet.com) neu Arwel (rocetarwel@yahoo.com) erbyn dydd Gwener, 28 Awst, os gwelwch yn dda.